# Canllawiau ar y defnydd o anadlwyr salbutamol brys mewn ysgolion yng Nghymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



## Canllawiau

Cylchlythyr Llywodraeth Cymru: rhif 015/2014
Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2014

# Canllawiau ar y defnydd o anadlwyr salbutamol brys mewn ysgolion yng Nghymru

**Cynulleidfa**

Awdurdodau lleol; pob ysgol feithrin, cynradd, uwchradd ac arbennig a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion; sefydliadau sydd â diddordeb.

**Trosolwg**

Prif nod y ddogfen ganllaw hon yw darparu cyngor i ysgolion ac awdurdodau lleol ar newidiadau i reoliadau'r DU, sy'n caniatáu i ysgolion gadw anadlwyr salbutamol brys.

**Camau i'w cymryd**

Tynnu'r mater i sylw pob rheolwr, aelod o staff a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, sy'n gweithio mewn amgylchedd ysgol.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Y Gangen Anghenion Dysgu Ychwanegol
Cymorth i Ddysgwyr
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 6144
e-bost: AdditionalLearningNeedsBranch@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol**

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Dysgu Cymru yn http://learning.wales.gov.uk/resources/browse-all/use-of-emergency-salbutamol-inhalers-in-schools-in-wales/?skip=1&lang=cy

**Dogfennau cysylltiedig**

*Mynediad i Addysg a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Meddygol* (2010)

Mae'r ddogfen uchod ar gael ar wefan Dysgu Cymru.

ISBN digidol 978 1 4734 2182 0
© Hawlfraint y Goron 2014
WG23073

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **2** |
| **Gwybodaeth i ysgolion ac awdurdodau lleol** | **3** |
| Y polisi ar anadlwyr brys | 3 |
| Caniatâd gan rieni/gofalwyr | 4 |
| Y gofrestr asthma | 4 |
| Plant a phobl ifanc ag asthma yn yr ysgol | 5 |
| Plant iau ac asthma | 5 |
| Ymateb i symptomau asthma a phwl o asthma | 6 |
| Y weithdrefn ar gyfer pwl o asthma | 8 |
| Camau ymarferol ar ôl defnyddio'r anadlydd brys | 9 |
| Yr anadlydd brys a phecyn/pecynnau anadlwyr brys | 9 |
| Storio, gofalu am a gwaredu'r anadlydd brys | 10 |
| Salbutamol | 11 |
| Staff | 11 |
| Yswiriant ysgolion | 13 |
| Canllawiau Mynediad i Addysg a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Meddygol | 13 |
| Gwybodaeth y gall ysgolion ei rhannu gyda rhieni/gofalwyr | 13 |
| **Dolenni i wybodaeth ddefnyddiol** | **15** |
| **Atodiad A: Templed y ffurflen ganiatâd** | **16** |
| **Atodiad B: Templed y llythyr defnyddio anadlydd brys** | **17** |

# Cyflwyniad

Asthma yw'r cyflwr cronig mwyaf cyffredin ymhlith plant, ac mae'r cyfraddau asthma yng Nghymru ymysg y cyfraddau uchaf yn y byd – ac mae'n effeithio ar un o bob naw o blant[1]. Ar gyfartaledd, mae dau o blant ag asthma ym mhob ystafell ddosbarth[2].

Fodd bynnag, mae 86% o blant ag asthma, ar ryw adeg, wedi bod heb anadlydd yn yr ysgol o ganlyniad i'w anghofio, ei golli neu mae wedi torri, neu mae'r anadlydd yn wag [3].

Mewn ymateb i hyn, ac yn dilyn cyngor gan y Comisiwn Meddyginiaethau Dynol, yn 2013, cafwyd argymhelliad gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaeth a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) i newid deddfwriaeth y DU, er mwyn galluogi ysgolion i gadw anadlwyr salbutamol brys[4].

Yn dilyn cytundeb gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, mae diwygiad i'r Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol (Diwygio) (Rhif 2) 2014[5] yn caniatáu i ysgolion brynu anadlydd salbutamol, heb bresgribsiwn, i'w ddefnyddio mewn achosion brys, o 1 Hydref 2014. Mae'r newid hwn yn berthnasol i ysgolion meithrin, cynradd, uwchradd ac arbennig a gynhelir, unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion annibynnol yng Nghymru.

Nid yw'n ofynnol i ysgolion gadw anadlydd – mae hyn yn bŵer dewisol, sy'n galluogi ysgolion i wneud hynny os byddant yn dymuno. Gellir defnyddio'r anadlydd brys os nad yw anadlydd rhagnodedig y plentyn neu berson ifanc ar gael, er enghraifft am ei fod wedi torri neu'n wag, a dim ond y plant neu bobl ifanc canlynol ddylai ei ddefnyddio. Plant neu bobl ifanc sydd:

- wedi derbyn diagnosis o asthma, ac sydd wedi derbyn anadlydd lliniaru rhagnodedig;
- NEU sydd wedi derbyn anadlydd lliniaru rhagnodedig;

AC, mae rhiant/gofalwr wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig i'r anadlydd brys gael ei ddefnyddio.

Mae'r MHRA yn argymell y dylai'r ysgolion hynny, sy'n dewis cadw anadlydd brys, sefydlu polisi ar sut i'w ddefnyddio. Felly, datblygwyd y canllawiau anstatudol hwn gan yr Adran Addysg a Sgiliau gyda'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, er mwyn darparu cyngor ar beth y dylai polisi o'r fath ei gynnwys.

Mae'r canllaw hwn yn cefnogi ymrwymiad hir-dymor Llywodraeth Cymru tuag at Gytundeb y Cenhedloedd Unedig ar hawliau y plentyn, fel y gwelir yn 'Mesur hawliau plant a phobl ifanc (Cymru) 2011', yn enwedig o ran sicrhau hawliau'r plentyn am ofal a goroesi sylfaenol (Erthygl 6).

---

[1] Asthma Cymru, 'About us – Around the UK', http://www.asthma.org.uk/cymru
[2] Asthma UK, 'Asthma Facts and FAQs', http://www.asthma.org.uk/asthma-facts-and-statistics
[3] Arolwg Asthma UK.
[4] At ddefnydd y canllawiau hwn, bydd y term 'ysgol' yn cyfeirio at bobl ysgol feithrin, cynradd, uwchradd ac arbennig a gynhelir, unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion annibynnol yng Nghymru.
[5] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2014/1878/pdfs/uksi_20141878_en.pdf

# Gwybodaeth i ysgolion ac awdurdodau lleol

Fel y cyfeirir ato yng nghanllaw Llywodraeth Cymru, Mynediad i Addysg a Chymorth i Blant a Phoble Ifanc ag Anghenion Meddygol (canllawiau 'anghenion meddygol'), mae'n arfer da i ysgolion sefydlu polisi sy'n diwallu anghenion plant a phobl ifanc ag anghenion meddygol, yn cynnwys rhoi hyfforddiant perthnasol i staff, a datblygu cynlluniau gofal iechyd unigol, mewn cydweithrediad â rhieni/gofalwyr, yr awdurdod lleol a gweithwyr proffesiynol eraill. Argymhellir y dylai'r arfer hwn gynnwys polisi ar asthma.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyfuno'r canllawiau hwn ar anadlwyr brys gyda'i dogfen ganllaw 'Mynediad i Addysg a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Meddygol', ar ôl cwblhau adolygiad ar anghenion meddygol mewn ysgolion. Bydd y canllawiau cyfunol hwn yn destun ymgynghoriad llawn bryd hynny.

## Y polisi ar anadlwyr brys

Mae cadw anadlydd ar gyfer defnydd brys mewn ysgolion yn gallu cyflwyno nifer o fanteision. Gallai osgoi achosi taith ddiangen ac ysgytiol i'r ysbyty i blentyn neu berson ifanc, a gallai achub eu bywyd. Mae'n debygol y bydd hyn yn rhoi mwy o dawelwch meddwl i rieni/gofalwyr, ynglŷn ag anfon eu plentyn i'r ysgol.

Os bydd yr ysgol yn dewis cadw anadlydd brys, mae angen polisi ar sut i'w ddefnyddio. Dylai gynnwys sut a phryd i ddefnyddio'r anadlydd brys, a gwybodaeth i staff ar sut i ddelio â phwl o asthma. Awgrymir y dylid ymgorffori polisi ar anadlydd brys ym mholisi anghenion meddygol neu bolisi asthma yr ysgol unigol, a allai gynnwys elfennau cysylltiedig eisoes, yn cynnwys:

- Cynnal cofrestr gyfredol o'r plant a phobl ifanc sydd wedi derbyn diagnosis asthma / sydd wedi derbyn anadlydd lliniaru rhagnodedig. Dylid cadw copi o'r gofrestr hon gyda'r anadlydd brys er mwyn galluogi aelodau o staff i gadarnhau caniatâd rhiant/gofalwr mewn achos o bwl o asthma

- Gwybodaeth gyffredinol am sut i adnabod ac ymateb i bwl o asthma, a beth i'w wneud mewn sefyllfaoedd brys

- Sicrhau mai dim ond plant neu bobl ifanc sydd â chaniatâd ysgrifenedig rhiant/gofalwr sy'n defnyddio'r anadlydd brys, a bod y caniatâd hwn yn rhan o gynllun gofal iechyd unigol y plentyn neu berson ifanc. (Mae gwybodaeth bellach am gynlluniau gofal iechyd ar gael ym mhennod 2 y canllawiau anghenion Meddygol)

- Trefniadau ar gyfer cyflenwi, storio, gofalu am, defnyddio a gwaredu'r anadlwyr a'r ddyfais wahanu yn briodol, gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr

- Cymorth a hyfforddiant priodol i'r staff ar sut i ddefnyddio'r anadlydd brys, yn unol â pholisi cyffredinol yr ysgol ar anghenion meddygol

- Cadw cofnod effeithiol o’r defnydd a wneir o’r anadlydd brys a rhoi gwybod i rieni/gofalwyr bod eu plentyn wedi derbyn yr anadlydd brys, yn ysgrifenedig

- Sicrhau bod y pecyn/pecynnau anadlwyr brys yn gyfredol a bod nifer y pecynnau yn diwallu anghenion yr ysgol (e.e. ar draws safleoedd gwahanol) a gwneud trefniadau priodol ar gyfer mynd â phlant a phobl ifanc, sydd ag anadlydd rhagnodedig, oddi ar dir yr ysgol

- Sicrhau bod o leiaf dau aelod o staff gwirfoddol yn gyfrifol am sicrhau bod y polisi yn cael ei ddilyn. Mae nifer o ddolenni gwe wedi’u rhestru ar ddiwedd y canllawiau hwn, a allai fod yn ddefnyddiol ar gyfer creu polisi ar anadlwyr brys

Ni fwriedir i’r canllawiau hwn fod yn ganllaw manwl ar ddiagnosis neu drin asthma yn gyffredinol. Os bydd gan aelod o staff reswm i amau bod gan blentyn neu berson ifanc asthma neu gyflwr anadlol, dylid hysbysu’r rhieni/gofalwyr, er mwyn iddynt allu mynd â’u plentyn at feddyg.

## Caniatâd gan rieni/gofalwyr

Dylai’r ysgol ofyn am ganiatâd ysgrifenedig i ddefnyddio anadlydd brys gan rieni/gofalwyr plant a phobl ifanc sydd ag anadlydd rhagnodedig. Mae templed o ffurflen ganiatâd yn Atodiad A. Bydd ysgolion eisiau ystyried pryd a sut i atgoffa rhieni/gofalwyr i anfon ffurflenni caniatâd ar gyfer anadlwyr brys, a hefyd sut i sicrhau bod y wybodaeth hon yn berthnasol a chyfredol. Ymhlith yr opsiynau mae:

- gofyn am ganiatâd yr un pryd ag y gofynnir am ganiatâd i weinyddu neu oruchwylio plentyn neu berson ifanc yn gweinyddu eu hanadlydd eu hunain, o dan bolisi asthma neu bolisi cyflyrau meddygol, neu fel rhan o’r gwaith o ddatblygu cynllun gofal iechyd unigol
- gofyn am ganiatâd yr un pryd ag y gofynnir am ganiatâd ar gyfer y brechiad rhag y ffliw a brechiadau eraill
- gofyn am ganiatâd ar ddechrau blwyddyn academaidd newydd

Bydd cadw cofnod o ganiatâd rhieni/gofalwyr ar y gofrestr asthma hefyd yn galluogi staff i gadarnhau’n gyflym a yw plentyn neu berson ifanc yn gallu defnyddio’r anadlydd mewn achos brys. Dylid sicrhau bod y gofrestr asthma yn cael ei diweddaru’n rheolaidd.

## Y gofrestr asthma

Mae cyflwyno a chynnal cofrestr gyfredol o blant a phobl ifanc sydd wedi cael diagnosis o asthma / sydd ag anadlydd rhagnodedig, yn hollbwysig (yn arbennig mewn ysgolion mwy neu ysgolion uwchradd), er mwyn gallu adnabod y plant neu bobl ifanc hynny a allai fod angen yr anadlydd brys. Dylid cadw copi cyfredol bob amser gyda’r anadlydd brys, er mwyn galluogi aelodau o staff i gadarnhau caniatâd rhieni/gofalwyr, mewn achos o bwl o asthma.

Dylai ysgolion sicrhau bod y gofrestr asthma:

- Yn hawdd i'w chanfod bob amser, ac yn ystyried cyfrinachedd gwybodaeth
- Yn cael ei chadw mewn lleoliad y mae aelodau o staff yn ymwybodol ohono
- Yn hawdd ei darllen – ac yn nodi'n glir a oes gan blentyn neu berson ifanc anadlydd rhagnodedig a chaniatâd rhieni/gofalwyr i ddefnyddio'r anadlydd brys
- Pan fydd yn bosibl, dylid cynnwys ffotograff o'r plentyn neu berson ifanc, a gyflwynwyd gan y rhiant/gofalwr, at ddibenion adnabod mewn achos brys
- Mae copi o'r gofrestr asthma yn cael ei chadw bob amser gyda'r anadlydd brys

## Plant a phobl ifanc ag asthma yn yr ysgol

Dylai bod gan blant a phobl ifanc eu hanadlydd lliniaru personol eu hunain, wedi'i labelu, yn yr ysgol, er mwyn trin symptomau aciwt ac i'w ddefnyddio yn ystod pwl o asthma. Os gallant reoli eu hasthma eu hunain, dylent gadw eu hanadlydd gyda hwy, ac os na allant wneud hyn, dylai'r anadlydd fod ar gael yn rhwydd iddynt bob amser, yn cynnwys yn ystod addysg gorfforol, gweithgareddau chwaraeon ac ymweliadau addysgiadol.

Dylid rhoi cymorth, er enghraifft cynlluniau gofal iechyd unigol, gallai rhieni/gofalwyr ddarparu cardiau asthma i'r ysgol, a hyfforddiant a chymorth rheolaidd i staff.

## Plant iau ac asthma

Efallai na fydd plant iau, mewn lleoliadau'r blynyddoedd cynnar, yn gallu cyfleu pan fydd eu symptomau asthma yn gwaethygu ac efallai na allant gymryd meddyginiaeth heb gymorth. Mae'n hollbwysig bod staff y blynyddoedd cynnar ac ysgolion cynradd yn gwybod sut i adnabod symptomau asthma a'u bod yn gwybod beth i'w wneud mewn achos o bwl o asthma.

Gall plant iau, neu'r rhai sydd angen cymorth, ddefnyddio dyfais wahanu gyda'u hanadlydd. Mae dyfais wahanu yn siambr blastig gyda darn ceg ar un pen a thwll ar gyfer yr anadlydd ar y pen arall. Bydd dyfais wahanu ond yn gweithio gydag anadlydd erosol. Wrth ddefnyddio dyfais wahanu cymerir dau anadliad dwfn i bob pwff o'r anadlydd. Mae'n bwysig sicrhau bod y ddyfais wahanu yn fodel addas ar gyfer yr anadlydd, gall y fferyllydd gymunedol wirio hyn.



Ffig. 1: plentyn yn derbyn cymorth i ddefnyddio anadlydd gyda dyfais wahanu, at ddibenion eglurhaol yn unig. Ffynhonnell: Llyfrgell y GIG

## Ymateb i symptomau asthma a phwl o asthma

Mae'r diagram o'r Weithdrefn ar gyfer Pwl o Asthma ar dudalen 8 yn disgrifio beth i'w wneud mewn achos brys. Mae hyn mewn fformat mawr, a gellir ei ddefnyddio fel poster mewn ardaloedd priodol yn yr ysgol.

Bwriedir i'r anadlydd brys gael ei ddefnyddio pan fydd gan blentyn neu berson ifanc anadlydd rhagnodedig. Mae'n bosibl camgymryd symptomau cyflyrau/salwch difrifol arall, yn cynnwys adwaith alergaidd, goranadlu a thagu ar ddarn estron sydd wedi'i fewnanadlu, am asthma, a gallai defnyddio'r anadlydd brys mewn achosion o'r fath oedi triniaeth. Os oes unrhyw amheuaeth, gallai fod yn fwy diogel defnyddio'r anadlydd brys a galw am ambiwlans.

Dim ond y plant neu bobl ifanc canlynol ddylai ddefnyddio anadlydd salbutamol mewn achos brys. Plant neu bobl ifanc sydd:

- wedi derbyn diagnosis o asthma, ac sydd wedi derbyn anadlydd lliniaru rhagnodedig;
- NEU sydd wedi derbyn anadlydd lliniaru rhagnodedig.

AC, mae rhiant/gofalwr wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig i'r anadlydd brys gael ei ddefnyddio.

Gallai symptomau 'o ddydd i ddydd' asthma gynnwys:

- Pesychu a gwichian (clywir 'chwiban' wrth anadlu allan) wrth wneud ymarfer corff
- Prinder anadlu wrth wneud ymarfer corff
- Peswch achlysurol

Mae'r symptomau hyn fel arfer yn ymateb pan fydd plentyn neu berson ifanc yn defnyddio eu hanadlydd eu hunain ac yna'n gorffwys (e.e. rhoi'r gorau i ymarfer corff). Ni fydd angen eu hanfon adref o'r ysgol fel arfer ac ni fydd angen sylw meddygol brys arnynt.

Fodd bynnag, os bydd plentyn neu berson ifanc yn arddangos arwyddion cynnar pwll o asthma, dylid eu trin yn unol â'u cynllun gofal iechyd unigol pan fydd hynny'n bosibl, a dylid dilyn y Weithdrefn ar gyfer Pwl o Asthma. Os defnyddiwyd dyfais wahanu, gall y plentyn fynd â'r ddyfais adref gyda hwy (er mwyn osgoi'r risg bosibl o groes-heintio, ni ddylid ailddefnyddio'r ddyfais wahanu yn yr ysgol) a bydd angen i'r ysgol gaffael dyfais wahanu newydd ar unwaith.

Gallai arwyddion cynnar o bwl o asthma gynnwys:

- Pesychu cyson (wrth orffwys)
- Sŵn gwichian (chwibanu) o'r frest (wrth orffwys)
- Prinder anadlu neu anhawster i anadlu (gallai'r plentyn fod yn anadlu'n gyflym gydag ymdrech)
- Ffroenau llydan (y ffroenau yn symud wrth anadlu)

- Methu siarad neu gwblhau brawddegau
- Efallai y byddant yn ceisio dweud wrthych bod eu brest ‘yn teimlo’n dynn’ (gallai plant iau fynegi hyn fel poen bol)
- Bod yn anarferol o dawel

Dylid galw ambiwlans a’r rhieni/gofalwyr ar unwaith os bydd y plentyn neu berson ifanc:

- Wedi blino’n lân
- Heb ddigon o anadl i siarad
- Yn troi’n las/arlliw glas neu wyn o amgylch eu gwefusau
- Wedi llewygu
- Dim gwelliant arwyddocaol i’r symptomau ar ôl 5-10 munud

**I’w nodi:** efallai y bydd plentyn neu berson ifanc wedi derbyn anadlydd lliniaru rhagnodedig gwahanol i salbutamol e.e. terbutaline. Dylid parhau i ddefnyddio’r anadlydd salbutamol os nad yw eu hanadlydd hwy eu hunain ar gael – bydd yn helpu i leddfu eu hasthma, a gallai achub eu bywyd.

## Y weithdrefn ar gyfer pwl o asthma

- Ceisiwch dawelu a rhoi sicrwydd i'r plentyn neu berson ifanc, a pheidiwch â'u gadael ar eu pen eu hunain.
- Dylech eu hannog i eistedd i fyny a phlygu ymlaen rhywfaint, ac i anadlu'n araf a chyson.
- Defnyddio eu hanadlydd neu, os nad yw ar gael, arhoswch gyda hwy nes y bydd y pecyn anadlydd brys yn cael ei gyflwyno i chi. Cadarnhewch fod caniatâd ar y gofrestr asthma. Defnyddiwch yr anadlydd, fel isod:

I weithredu'r anadlydd, chwistrellwch 2 bwff i'r aer.
Yna gweinyddwch 2 bwff o'r anadlydd salbutamol brys i'r plentyn neu berson ifanc (drwy'r ddyfais wahanu os yn bosibl).

Gwelliant ar Unwaith?

Ie

Dywedwch wrth y plentyn neu berson ifanc i orffwys, os bydd angen. Hysbyswch y rhieni/gofalwyr ynghylch y pwl o asthma. Dywedwch wrth aelodau o staff perthnasol am y pwl o asthma, rhag ofn y bydd cymhlethdodau pellach.

Gall y plentyn neu berson ifanc ddychwelyd i'w gweithgareddau ysgol arferol, o dan oruchwyliaeth. Dylech eu hatgoffa i ddweud wrth aelod o staff os nad ydynt yn teimlo'n dda.

Glanhewch yr anadlydd yn ôl cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Cofnodwch y defnydd o'r anadlydd. Gall y plentyn neu berson ifanc gadw'r dyfais wahanu.

Hysbyswch y rhiant/gofalwr ynghylch y pwl o asthma yn ysgrifenedig, a diweddaru cynllun gofal iechyd eu plentyn.

Na

Rhowch 10 bwff arall o'r anadlydd brys.
Un pwff ar y tro bob 30-60 eiliad, drwy'r ddyfais wahanu os yn bosibl.

Os ydych yn poeni UNRHYW ADEG cyn cyrraedd 10 pwff, neu os nad oes gwelliant ar ôl 10 pwff, gofynnwch i rywun **ffonio 999 am AMBIWLANS ar unwaith**

Gwelliant?

Ffoniwch y rhieni/gofalwyr i'w hysbysu ynghylch y pwl o asthma. Efallai y bydd angen i'w plentyn fynd adref os oedd angen sawl pwff arnynt.

Ffonio'r rhieni/gofalwyr ar unwaith.

Os na fydd yr ambiwlans wedi cyrraedd o fewn 10 munud, rhowch hyd at 10 pwff arall o'r anadlydd brys. Fel o'r blaen, un pwff ar y tro bob 30-60 eiliad, drwy'r ddyfais wahanu os yn bosibl.

**I'w nodi:** efallai y bydd plentyn neu berson ifanc wedi derbyn anadlydd lliniaru rhagnodedig gwahanol i salbutamol e.e. terbutaline. Dylid parhau i ddefnyddio'r anadlydd salbutamol os nad yw eu hanadlydd hwy eu hunain ar gael - bydd yn helpu i leddfu eu asthma, a gallai achub eu bywyd.

## Camau ymarferol i'w dilyn ar ôl defnyddio'r anadlydd brys

Ar ôl dilyn y Weithdrefn ar gyfer Pwl o Asthma, mae'n rhaid glanhau'r anadlydd gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, a'i ddychwelyd i'w leoliad storio arferol. Os defnyddiwyd dyfais wahanu, gall y plentyn fynd â'r ddyfais adref gyda hwy (er mwyn osgoi'r risg bosibl o groes-heintio, ni ddylid ailddefnyddio'r ddyfais wahanu yn yr ysgol) a bydd angen i'r ysgol gaffael dyfais wahanu newydd ar unwaith. Bydd angen ystyried a oes angen anadlydd newydd, mae anadlydd fel arfer yn cynnwys 100 pwff.

Dylid cofnodi manylion o'r defnydd a wnaed o'r anadlydd brys yn brydlon, yn cynnwys:

- Dyddiad/Amser/Lleoliad a ddefnyddiwyd (e.e. 05/03/2015, 11am, Gwers Ymarfer Corff)
- Sawl pwff o'r anadlydd a roddwyd, a chan bwy
- A ddefnyddiwyd dyfais wahanu? A roddwyd y ddyfais i'r plentyn fynd adref gydag ef, fel yr argymhellir (ni ddylai'r ysgol ailddefnyddio dyfeisiau gwahanu er mwyn osgoi croes-heintio)
- Cyfrif o'r hyn ddigwyddodd, ac unrhyw fanylion perthnasol am y pwl o asthma, e.e. y plentyn wedi dychwelyd i'r dosbarth o dan oruchwyliaeth, hysbyswyd y rhieni/gofalwyr

Dylid hysbysu rhieni/gofalwyr y plentyn neu berson ifanc ynghylch y pwl o asthma yn brydlon. Dylid darparu hysbysiad ysgrifenedig iddynt yn dilyn hyn, er mwyn gallu trosglwyddo gwybodaeth i feddyg y plentyn, os bydd angen. Dylid cadw copi o'r llythyr fel rhan o gynllun gofal iechyd y plentyn neu berson ifanc, a dylid diweddaru hyn hefyd, pan fydd yn briodol.

## Yr anadlydd brys a phecyn/pecynnau anadlwyr brys

Dylai ysgolion brynu anadlwyr salbutamol a dyfeisiau gwahanu o fferyllfa gymunedol – nid oes angen presgripsiwn. Gall ysgolion brynu anadlwyr mewn symiau bychain, ar yr amod bod hyn yn digwydd ar sail achlysurol, ac nid yw er mwyn gwneud elw.

Bydd angen i'r pennaeth lofnodi'r cais i'r fferyllfa gymunedol, yn ddelfrydol ar bapur pennawd yr ysgol, gan ddatgan:

- enw'r ysgol sydd angen y cynnyrch;
- y diben y mae angen y cynnyrch hwnnw,
- y cyfanswm sydd ei angen.

Gall fferyllwyr cymunedol roi cyngor ar ddefnyddio anadlwyr, ac efallai y bydd ysgolion yn dymuno trafod y dyfeisiau gwahanu amrywiol y gellir eu defnyddio gyda'u hanadlydd, oherwydd mae fersiynau gwahanol ar gael. Dylai ysgolion fod yn ymwybodol y bydd y fferyllwyr yn codi tâl am yr anadlydd a'r ddyfais wahanu, ac efallai y byddant yn ychwanegu tâl trin hefyd.

Dylai ysgolion ystyried cadw mwy nac un pecyn anadlydd brys, yn arbennig os oes mwy nac un safle, er mwyn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sy'n amgylchedd yr ysgol, yn agos at becyn.

Dylai pecyn anadlydd brys gynnwys:

- anadlydd gyda dos mesuredig o salbutamol;
- o leiaf dwy ddyfais wahanu blastig defnydd unigol, sy'n addas ar gyfer yr anadlydd;
- cyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio'r anadlydd a'r ddyfais wahanu;
- cyfarwyddiadau ar lanhau a storio'r anadlydd;
- gwybodaeth y gwneuthurwr;
- rhestr wirio o anadlwyr, wedi'u nodi gan eu rhif swp a'u dyddiad dod i ben, gyda gwiriadau misol eu bod yn gweithio yn cael eu cofnodi;
- nodyn o'r trefniadau ar gyfer ailgyflenwi'r anadlydd a'r ddyfais wahanu (gweler isod);
- copi o'r gofrestr asthma, sy'n rhestru'r rhai sydd â chaniatâd i ddefnyddio'r anadlydd brys;
- cofnod gweinyddol (h.y. pryd y cafodd yr anadlydd ei ddefnyddio, sawl pwff).

## Storio, gofalu am a gwaredu'r anadlydd brys

Dylai polisi anadlydd brys yr ysgol gynnwys cyfrifoldebau'r staff am gynnal a chadw'r pecyn anadlydd brys. Argymhellir y dylai o leiaf dau wirfoddolwr a enwir, o blith staff yr ysgol, fod yn gyfrifol am sicrhau:

- bob mis, bod yr anadlydd a'r dyfeisiau gwahanu yn bresennol ac yn gweithio, a bod nifer ddigonol o byffiau yn yr anadlydd;
- bod rhifau swp yr anadlwyr yn cael eu cofnodi, a bod anadlwyr newydd yn cael eu caffael pan fydd y dyddiadau dod i ben yn agosáu;
- bod dyfeisiau gwahanu newydd ar gael ar ôl i rai gael eu defnyddio;
- bod darn ceg yr anadlydd wedi'i lanhau, ei sychu a'i ddychwelyd i'r lleoliad storio ar ôl ei ddefnyddio, neu bod anadlwyr newydd ar gael os bydd angen.

Bydd ysgolion yn awyddus i sicrhau bod y pecyn/pecynnau anadlwyr brys yn cael eu cadw mewn lleoliad canolog, diogel ac addas yn yr ysgol, er enghraifft swyddfa'r ysgol, neu'r ystafell staff, sy'n hysbys ac yn agored i staff bob amser, ond gan sicrhau bod yr anadlydd ymhell o gyrraedd a golwg y plant. Ni ddylid cloi'r anadlydd a'r ddyfais wahanu unrhyw le.

Dylid storio'r anadlydd brys ar y tymheredd priodol (yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr), fel arfer o dan 30°C, ei fod wedi'i ddiogelu rhag golau uniongyrchol yr haul a thymheredd eithafol. Dylid labelu'r anadlydd a'r dyfeisiau gwahanu a'u cadw ar wahân i anadlydd unrhyw blentyn neu berson ifanc. Dylid gweithredu'r anadlydd wrth ei ddefnyddio am y tro cyntaf (e.e. chwistrellu dau bwff), oherwydd gallai fod wedi'i rwystro pan nad yw'n cael ei ddefnyddio. Dylid ei weithredu cyn cael ei ddefnyddio ar ôl hyn. Dylid cadw cofnod o sawl pwff a ddefnyddiwyd (yn cynnwys pyffiau gweithredu) er mwyn sicrhau bod digon ar ôl. Er mwyn osgoi'r risg bosibl o

groes-heintio, ni ddylai ysgol ailddefnyddio dyfais wahanu. Ar ôl ei defnyddio, gellir ei rhoi i'r plentyn fynd adref gyda hwy, er mwyn gwneud defnydd personol ohono.

Fodd bynnag, gellir ailddefnyddio'r anadlydd fel arfer, ar yr amod ei fod yn cael ei lanhau ar ôl cael ei ddefnyddio. Dylid tynnu canister yr anadlydd, a dylid golchi cas plastig yr anadlydd a'r cap mewn dŵr cynnes sy'n llifo, a'i adael i sychu mewn lle glân a diogel. Dylid dychwelyd y canister i'r cas pan fydd yn sych, ac ail-osod y cap, a dylid dychwelyd yr anadlydd i'r man storio penodedig.

Fodd bynnag, os bydd unrhyw risg o halogiad gyda gwaed (e.e. pan fydd yn cael ei ddefnyddio heb ddyfais wahanu), ni ddylid ei ddefnyddio, a dylid ei waredu[6].

Argymhellir y dylid dychwelyd anadlwyr gwag i'r fferyllfa i'w hailgylchu.

## Salbutamol

Mae Salbutamol yn feddyginiaeth gymharol ddiogel, yn arbennig os bydd yn cael ei hanadlu i mewn, ond mae pob meddyginiaeth yn gallu cael rhai effeithiau andwyol. Mae effeithiau andwyol salbutamol sy'n cael ei anadlu i mewn yn hysbys, maent yn dueddol o fod yn rhai ysgafn a dros dro ac nid ydynt yn debygol o achosi niwed difrifol. Efallai y bydd y plentyn neu berson ifanc yn teimlo ychydig yn sigledig neu'n crynu, neu efallai y byddant yn dweud eu bod yn teimlo eu calon yn curo yn gyflymach.

Y prif risg o ganiatáu i ysgolion gadw anadlydd salbutamol, ar gyfer defnydd brys, yw y gellir ei weinyddu'n amhriodol i blentyn neu berson ifanc sy'n fyr ei anadl, ond nad oes ganddo asthma. Felly, mae'n hollbwysig bod ysgolion yn sicrhau mai dim ond plant neu bobl ifanc sydd ag anadlydd lliniaru rhagnodedig sy'n defnyddio'r anadlydd brys, ac sydd â chaniatâd ysgrifenedig gan riant/gofalwr i ddefnyddio'r anadlydd brys.

## Staff

Gall unrhyw aelod o staff wirfoddoli i dderbyn cyfrifoldebau'r anadlydd brys, ond ni ellir eu gorfodi i wneud hynny. Efallai bod gan y staff hyn gyfrifoldebau eraill i weinyddu meddyginiaeth a/neu gefnogi plant neu bobl ifanc ag anghenion meddygol.

Yn y cyngor canlynol, mae'r term 'aelod o staff dynodedig' yn cyfeirio at unrhyw aelod o staff sydd wedi derbyn cyfrifoldeb gwirfoddol i helpu i weinyddu anadlydd brys, e.e. maent wedi gwirfoddoli i helpu plentyn neu berson ifanc i ddefnyddio'r anadlydd brys, maent wedi'u hyfforddi i wneud hyn, ac maent wedi nodi ym mholisi anghenion meddygol neu anadlydd brys yr ysgol, fel rhywun y gall pob aelod o staff ofyn am eu cymorth mewn achos brys.

[6] Mae'r cyngor hwn yn gydnaws â *The use of placebo inhaler devices, peak flow meters and inspiratory flow meters in clinical practice. Practical Recommendations* (2005) Cymdeithas Thorasig Prydain http://www.brit-thoracic.org.uk/Portals/0/Clinical%20Information/Asthma/Other%20useful%20links/placeboinhalersfinal.pdf

Bydd ysgolion yn awyddus i sicrhau bod nifer resymol o staff dynodedig, er mwyn darparu sylw digonol. Dylai ysgolion sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant a chymorth priodol, sy'n berthnasol i'w lefel hwy o gyfrifoldeb.
Byddai'n rhesymol i **BOB** aelod o staff:

- derbyn hyfforddiant i adnabod symptomau pwl o asthma ac, yn ddelfrydol, sut i wahaniaethu'r symptomau hyn oddi wrth gyflyrau eraill sydd â symptomau tebyg;
- bod yn ymwybodol o'r polisi anadlydd brys;
- bod yn ymwybodol sut i gadarnhau bod plentyn neu berson ifanc ar y gofrestr asthma;
- bod yn ymwybodol o sut i gael gafael ar yr anadlydd;
- bod yn ymwybodol pwy yw'r aelodau o staff dynodedig, a'r polisi ar sut i gael gafael ar eu help.

Fel rhan o'r polisi anadlydd brys, dylai'r ysgol sicrhau bod trefniadau cytûn ar waith i bob aelod o staff ofyn am gymorth aelod o staff dynodedig, er mwyn helpu i weinyddu'r anadlydd brys, yn ogystal â chaglu'r anadlydd brys a'r ddyfais wahanu.

Dylai'r rhain fod yn gymesur, ac yn hyblyg – a gallant gynnwys galwadau ffôn sy'n cael eu gwneud neu blant neu bobl ifanc cyfrifol o oedran ysgol uwchradd yn gofyn am gymorth aelod o staff arall a/neu gasglu'r anadlydd, a'r gweithdrefnau ar gyfer gofalu am ddosbarth aelod o staff dynodedig, pan fyddant yn helpu i weinyddu'r anadlydd.

Dylai polisi'r ysgol gynnwys gweithdrefn ar gyfer galluogi cadarnhad cyflym o'r gofrestr asthma, fel rhan o'r broses o gychwyn yr ymateb brys. Nid oes rhaid i aelod o staff dynodedig wneud hyn o reidrwydd, ond efallai y byddai'n fuddiol i bob aelod dynodedig gadw copi o'r gofrestr o leiaf. Os yw'r gofrestr yn gymharol gryno, gellir cadw copi ym mhob ystafell ddosbarth. Bydd angen i ysgolion ystyried lle i gadw'r cofrestrau, o safbwynt gwybodaeth gyfrinachol.

Dylai aelodau o staff dynodedig dderbyn hyfforddiant er mwyn:

- gallu adnabod pyliau o asthma (a'u gwahaniaethu oddi wrth gyflyrau eraill sydd â symptomau tebyg)
- ymateb yn briodol i gais am gymorth gan aelod o staff arall
- gwybod pryd mae angen camau brys
- gweinyddu anadlwyr brys drwy ddyfais wahanu
- gwneud cofnodion priodol o byliau o asthma
- gweithredu a dilyn y ddogfen ganllaw hon

Mae clipiau fideo Asthma UK ar sut i ddefnyddio anadlwyr â dosau mesuredig a dyfeisiau gwahanu yn werthfawr iawn fel deunyddiau hyfforddiant:
http://www.asthma.org.uk/advice-using-inhalers

Fel arfer bydd plant a phobl ifanc gydag anadlwyr yn gallu dangos i staff sut i'w ddefnyddio; efallai y bydd nyrs yr ysgol yn gallu rhoi cyngor hefyd ar ddefnyddio anadlwyr yn briodol. Mewn nifer o ardaloedd, mae timau asthma lleol yn darparu

hyfforddiant i staff ysgolion ar sut i roi cymorth i blant ag asthma, yn cynnwys sut i ddefnyddio’r anadlydd, a gallai ysgolion gysylltu â’u Bwrdd Iechyd Lleol i gael gwybodaeth ar sut i roi cymorth i blant a phobl ifanc ag asthma.

Argymhellir y dylai’r ysgol hefyd sicrhau:

- bod unigolyn a enwir yn gyfrifol am oruchwylio’r polisi ar ddefnyddio’r anadlydd brys, monitro’r gwaith o weithredu’r polisi a chynnal y gofrestr asthma;
- bod o leiaf dau unigolyn yn gyfrifol am gyflenwi, gofalu am storio a gwaredu’r anadlydd a’r ddyfais wahanu.

## Yswiriant ysgolion

Gall awdurdodau lleol ddarparu yswiriant indemniad priodol i ysgolion sy’n gweinyddu’r anadlwyr brys; fodd bynnag, bydd angen i ysgolion gytuno ar unrhyw yswiriant indemniad o’r fath yn uniongyrchol gyda’r awdurdod lleol neu adran berthnasol.

## Canllawiau Mynediad i Addysg a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Meddygol

Mae’r canllawiau Mynediad i Addysg a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Meddygol[7] yn darparu gwybodaeth bellach am asthma (yn arbennig, tudalennau 78-81 a thempledi ffurflenni anghenion meddygol o dudalen 91): http://learning.wales.gov.uk/resources/browse-all/education-and-support-for-children-and-young-people-with-medical-needs/?lang=cy

## Gwybodaeth y gall ysgolion ei rhannu gyda rhieni/gofalwyr

Efallai y bydd ysgolion yn dymuno rhannu’r wybodaeth ganlynol a awgrymir gyda rhieni/gofalwyr.

O 1 Hydref 2014, gall meithrinfeydd ac ysgolion ar hyd a lled Cymru ddewis cadw anadlydd salbutamol i’w ddefnyddio mewn achos brys, os byddant yn dymuno. Fodd bynnag, nid yw hyn yn ofyniad statudol, ac ni all yr awdurdod lleol orfodi ysgolion i wneud hyn.

**Nodwch – mewn achos brys, ni ddylid dibynnu ar anadlydd brys yn hytrach nac anadlydd y plentyn. Efallai na fydd gan feithrinfeydd ac ysgolion anadlydd brys ar y safle.**

Bydd y meithrinfeydd a’r ysgolion hynny sy’n dewis cadw anadlydd salbutamol brys ond yn gallu ei weinyddu i blant a phobl ifanc sydd ag anadlydd rhagnodedig a phan fyddant wedi derbyn caniatâd ysgrifenedig gan eu rhiant/gofalwr i ddefnyddio’r

[7] Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyfuno’r canllawiau hwn ar anadlwyr brys gyda’i dogfen ganllaw ‘Mynediad i Addysg a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Meddygol’, ar ôl cwblhau adolygiad ar anghenion meddygol mewn ysgolion. Bydd y canllawiau cyfunol hwn yn destun ymgynghoriad llawn bryd hynny.

anadlydd brys (a’r ddyfais wahanu pan fydd angen). Dylech drafod darparu caniatâd ysgrifenedig gyda’r ysgol. Efallai y byddwch hefyd yn dymuno trafod yr anadlydd brys gyda’ch plentyn.

Dylech sicrhau bod y feithrinfa neu’r ysgol yn ymwybodol os yw eich plentyn wedi derbyn anadlydd rhagnodedig a gweithio gyda’r staff/gweithwyr iechyd proffesiynol i ysgrifennu cynllun gofal iechyd unigol ar gyfer eich plentyn. Nid oes angen i hyn fod yn hir, ond dylid ei gofnodi yn ysgrifenedig. Dylid hysbysu’r staff os bydd unrhyw newidiadau. Dylid labelu anadlydd eich plentyn (a dyfais wahanu os yw’n defnyddio un) gyda’u henw. Gallwch ddarparu anadlydd (a dyfais wahanu) sbâr, wedi’u labelu.

Mae cerdyn asthma yn ffordd ddefnyddiol i gadw gwybodaeth ysgrifenedig am asthma eich plentyn, a gall gynnwys manylion am feddyginiaethau, symptomau a rhifau cyswllt mewn argyfwng.

Mae gan Asthma UK ddewis eang o gyngor, yn cynnwys cardiau asthma, cynlluniau gofal iechyd unigol a chlipiau fideo: http://www.asthma.org.uk/resources

Awgrymir y dylai rhieni/gofalwyr[8]:

- Hysbysu staff y feithrinfa neu’r ysgol os oes gan eich plentyn asthma
- Darparu anadlydd lliniaru sbâr i’r ysgol, o fewn ei ddyddiad dod i ben (a dyfais wahanu os bydd angen), wedi’i labelu gydag enw eich plentyn
- Darparu gwybodaeth ysgrifenedig gyfredol ar:
  - y meddyginiaethau sydd eu hangen ar eich plentyn pan fyddant yn y feithrinfa neu ysgol, yn cynnwys faint y byddant yn ei gymryd a phryd;
  - y meddyginiaethau sydd eu hangen ar eich plentyn pan fyddant yn cymryd rhan mewn ymweliadau, tripiau neu deithiau maes a gweithgareddau eraill y tu allan i oriau’r ysgol, yn cynnwys chwaraeon tîm yr ysgol.

Mae cyngor pellach ar gael hefyd yn y canllawiau *Mynediad i Addysg a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Meddygol* (yn arbennig tudalennau 78-81): http://learning.wales.gov.uk/resources/browse-all/education-and-support-for-children-and-young-people-with-medical-needs/?lang=cy

[8] http://www.asthma.org.uk/advice-your-child-at-school

## Dolenni i wybodaeth ddefnyddiol

Plant ac asthma – http://www.asthma.org.uk/advice

Plant iau – http://www.asthma.org.uk/advice-diagnosis-children

Dyfeisiau gwahanu – http://www.asthma.org.uk/advice-inhalers

Clipiau fideo arddangos gydag anadlwyr a dyfeisiau gwahanu:
http://www.asthma.org.uk/advice-using-inhalers

Cardiau asthma: http://www.asthma.org.uk/resources#SchoolDownloads

Cardiau Asthma Ysgolion
http://www.asthma.org.uk/Shop/school-asthma-card-pack-of-20-healthcare-professionals

*Mynediad i Addysg a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Meddygol*
(Cylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif: 003/2010, Mai 2010)
http://learning.wales.gov.uk/resources/browse-all/education-and-support-for-children-and-young-people-with-medical-needs/?lang=cy

Gwefannau Asthma UK Cymru / Asthma UK
http://www.asthma.org.uk/cymru neu http://www.asthma.org.uk/

GIG Cymru, Iechyd yng Nghymru – Asthma
http://www.wales.nhs.uk/ourservices/unscheduledcareconditions/asthma

NHS Choices, Asthma in Children
http://www.nhs.uk/conditions/asthma-in-children/pages/introduction.aspx

Safon Ansawdd NICE
http://publications.nice.org.uk/quality-standard-for-asthma-qs25

Getting it right for children, young people and families. Maximising the contribution of the school nursing team: Vision and Call to Action (Mawrth 2012).
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/216464/dh_133352.pdf

Efallai y byddwch yn dymuno atodi ffotograff o'ch plentyn at ddibenion adnabod mewn achos brys

## Atodiad A: Templed y ffurflen ganiatâd

TEMPLED FFURFLEN GANIATÂD:
DEFNYDDIO ANADLYDD SALBUTAMOL BRYS
[Nodwch enw'r ysgol]

**Plentyn neu berson ifanc sy'n dangos symptomau o asthma / cael pwl o asthma**

Enw llawn y plentyn (PRINTIWCH):……..……………………………………………………

Dosbarth: ………………………..………………………………………………………………

1. Rwy'n cadarnhau bod fy mhlentyn wedi derbyn diagnosis o asthma / wedi derbyn anadlydd rhagnodedig (dileer fel y bo'n briodol).

2. Bydd gan fy mhlentyn anadlydd cyfredol, sy'n gweithio, wedi'i labelu'n glir gyda'u henw, y byddant yn dod ag ef gyda hwy i'r ysgol bob dydd.

3. Os bydd fy mhlentyn yn arddangos symptomau asthma, ac os nad yw eu hanadlydd ar gael neu os na ellir ei ddefnyddio, rwy'n rhoi caniatâd i fy mhlentyn dderbyn salbutamol drwy anadlydd brys sy'n cael ei gadw yn yr ysgol ar gyfer achosion brys o'r fath.

Efallai y byddwch yn dymuno trafod hyn gyda'ch plentyn.

Llofnodwyd: ………………………………………. Dyddiad: ………………………………

Enw llawn y rhiant/gofalwr (PRINTIWCH)………..…………………………………………………

Rhif ffôn symudol:…………..………………………………………………………………..

Rhif ffôn adref/gwaith:…………..…………………/…………………………………….

Cyfeiriad rhiant/gofalwr:
……………………………………………………………………………………………………
……………………………………..…………………………………………………..………
…………………………………..………………………………………………………………
……………………..……………………………………………………….……………………

Cyfeiriad e-bost:……………..…………………………………………………………….

Enw meddyg y plentyn:…………………………………………………………………………

Rhif ffôn meddyg y plentyn:…………..……………………………………………………….

Cyfeiriad meddyg y plentyn:………..…………………………………………………………

…………..……………………………………………………………………..…………..……………
…………………………………..……………………………………………………………………

## Atodiad B: Templed y llythyr defnyddio anadlydd brys

# LLYTHYR TEMPLED I HYSBYSU RHIENI/GOFALWYR YNGLŶN Â DEFNYDDIO ANADLYDD SALBUTAMOL BRYS

Enw'r plentyn: …………………………………………………………………………………………………………

Dosbarth: …………………………………………………………………………………………………………

Dyddiad: ……………………………………………

Annwyl……………………………………………..,

Mae'r llythyr hwn yn eich hysbysu bod …………………………………wedi cael problemau gyda'u hanadlu heddiw. Digwyddodd hyn …………………………………… ……………………………………………………………………………………………….. ………………………………………………………………………………………………..

**[Dileer fel y bo'n briodol]**

Cawsant gymorth gan aelod o staff i ddefnyddio eu hanadlydd asthma eu hunain.
**NEU**

Nid oedd ganddynt eu hanadlydd asthma eu hunain, felly cafodd gymorth gan aelod o staff i ddefnyddio anadlydd asthma brys yr ysgol, sy'n cynnwys salbutamol. Rhoddwyd ....... pwff iddynt.

**NEU**

Nid oedd eu hanadlydd asthma eu hunain yn gweithio, felly cawsant gymorth gan aelod o staff i ddefnyddio anadlydd asthma brys yr ysgol, sy'n cynnwys salbutamol. Rhoddwyd ...... pwff iddynt. Dylech gysylltu â'ch meddyg ar frys i gael anadlydd i'ch plentyn ei ddefnyddio yn yr ysgol.

Rydym yn eich cynghori'n gryf i drosglwyddo'r wybodaeth hon i'ch meddyg cyn gynted â phosibl, i weld a oes angen asesiad meddygol pellach ar eich plentyn.
Yr eiddoch yn gywir,